Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Practis Deintyddol Fern {My} Dentist

**28 Mai 2015**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: AGIC@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-3929-0


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 8

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 11

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 13

6. Y Camau Nesaf ........ 15

Atodiad A ........ 16

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Fern {My} Dentist yn 1 Rhodfa Rhedyn, Prestatyn, Sir Ddinbych, LL19 9DN yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 28 Mai 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Fern {My} Dentist yn darparu gwasanaethau i tua 3,500 o gleifion yn ardal Prestatyn a'r cyffiniau yn Sir Ddinbych. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cafodd y practis ei gaffael gan Integrated Dental Holdings (IDH) yn ystod mis Awst 2014. Mae IDH yn berchen ar rwydwaith o bractisau deintyddol ledled y Deyrnas Unedig, ac roedd IDH wedi dechrau ar y broses o ail frandio dan yr enw {My}Dentist yn ystod cyfnod yr arolygiad. Mae'r broses hon eisoes wedi cael ei chyflwyno ym Mhractis Deintyddol Fern.

Mae Practis Deintyddol Fern {My} Dentist yn bractis cymysg; mae'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat yn bennaf, yn ogystal â nifer fach o wasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, pum nyrs ddeintyddol, derbynnydd a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau hylendid
- Sgwrs reolaidd
- Coronau, pontydd, a dannedd gosod
- Argaenau
- Gwynnu dannedd
- Ymgynghoriadau ac atgyfeiriadau ar gyfer mewnblaniadau deintyddol

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Practis Deintyddol Fern {My} Dentist yn bodloni'r safonau gofal a geir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Ar y cyfan, roedd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ac a wnaeth ymateb i holiadur AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd argaeledd ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn dda. Cafodd y cleifion gyfleoedd i roi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod y ffurflenni a oedd yn cael eu defnyddio at y diben hwn yn rhai safonol ar draws practisau deintyddol IDH. Felly, er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Deintyddol Fern {My} Dentist, a chael yr adborth o'r ansawdd gorau posibl, gwnaethom argymell y dylai IDH ystyried teilwra eu gwefan ac arolygon cleifion lle bo'n bosibl.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn dda ac roedd systemau gwaith cynnal a chadw a monitro ar waith. Argymhellwyd gwelliannau ynghylch cwblhau cofnodion sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw, cofnodion cleifion a rheolau lleol ar gyfer radiograffeg. Gwnaed argymhellion eraill o ran cael cyfarpar neu offer amgen yn hytrach na'r rhai sy'n yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yn unol â'r arfer orau.

Gwelsom fod yr arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol ac roedd gwybodaeth wedi'i threfnu'n dda. Mae rheolwr y practis wedi rhoi systemau ar waith er mwyn monitro a chynnal safonau. Roedd IDH wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau cadarn, a oedd yn y broses o gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau a deddfwriaeth Cymru.

Mae Practis Deintyddol Fern {My} Dentist yn cynnal gwasanaeth ar dri llawr uchaf adeilad masnachol. Mae'n anodd i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu bobl na allant ddringo'r grisiau gael mynediad at y practis am nad oes lifft ar gael. Tu mewn, gwelsom fod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau yn dda ac yn gyffredinol roedd yr holl fannau a welsom yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, roedd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ac a wnaeth ymateb i holiadur AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir.**

**Roedd argaeledd a chyflwyniad yr wybodaeth i gleifion yn dda. Cafodd y cleifion gyfleoedd i roi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod y ffurflenni a ddefnyddiwyd at y diben hwn yn rhai safonol ar draws practisau deintyddol IDH. Felly, er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Deintyddol Fern {My} Dentist, a chael yr adborth o'r ansawdd gorau posibl, gwnaethom argymell y dylai IDH ystyried teilwra eu gwefan ac arolygon cleifion lle bo'n bosibl.**

Gwnaethom dderbyn 11 holiadur gan gleifion a sgwrsio â thri chlaf yn ystod yr arolygiad. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir ac roeddent yn cadarnhau eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, a bod y staff yn groesawgar. Gwnaeth rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ganmol y prif ddeintydd a'r hylenydd. At ei gilydd, roedd naw o'r cleifion wedi ychwanegu sylwadau canmoliaethus am y staff a/neu ynglŷn â'r gwasanaethau, ac mae cyfran fach o'r rhain wedi'u cynnwys isod:

> *"Cyfeillgar, cwrtais, gwybodus … ar y cyfan byddwn yn hapus i argymell y gwasanaeth i unrhyw un"*

> *"Roedd y tîm yn groesawgar iawn, yn gymwynasgar ac yn broffesiynol iawn".*

> *"Mae'r practis hwn yn rhagorol – y dderbynfa a'r ffordd y mae'n trin cleifion. Mae pob manylyn gofynnol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth bob amser ar gael yn hawdd".*

Gwnaethom ganmol y practis am yr wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion. Roedd IDH wrthi'n ail-frandio i '{My} Dentist', ac roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Roedd hysbysfyrddau mawr newydd yn arddangos gwybodaeth allweddol a diddorol am ffeithiau a ffigurau deintyddol. Darparwyd rhywfaint o'r wybodaeth yn Saesneg a Chymraeg ac roedd gwybodaeth arall, megis llyfryn ar iechyd y geg, yn cynnwys lluniau. Roedd mwyafrif y cleifion yn ymwybodol o'r wybodaeth berthnasol, gan gynnwys sut i wneud cwyn a sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau; gwelsom fod y manylion hyn wedi'u harddangos yn glir yn y practis, ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt gwahanol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

Roedd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i harddangos mewn mannau amrywiol yn y practis; gwnaethom argymell mân welliannau, megis arddangos gwybodaeth debyg gyda'i gilydd, er enghraifft, fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r weithdrefn gwyno a gwybodaeth ynglŷn â ffioedd preifat a ffioedd y GIG.

Gwelsom fod cyfleoedd yn cael eu rhoi i'r cleifion ddarparu adborth am y gwasanaeth. Roedd pentwr o ffurflenni adborth a blwch i'w casglu ym mhob un o'r ystafelloedd aros. Mae IDH hefyd yn gwahodd cleifion i ddarparu adborth ar-lein a dywedwyd wrthym fod yr wybodaeth hon yn cael ei monitro a'i defnyddio i wella gwasanaethau lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, roedd y gwasanaeth ar-lein yn dal i fod ar y gweill o ran cael ei osod yn y practis hwn. Gwnaeth rheolwr ardal IDH a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad nodi bod holiaduron safonol gwasanaethau cwsmeriaid yn cael eu hanfon yn gyfnodol at sampl o gleifion ar hap ledled y DU; yn sgil hyn mae'r adborth cyffredinol yn cael ei ddadansoddi a'i anfon at y practisau unigol.

Yn ogystal â'r systemau uchod, gwnaethom argymell y dylid ystyried system fwy rheolaidd o gasglu barn y cleifion; yn ddelfrydol fe ddylai hyn gael ei deilwra i'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Deintiddol Fern {My} Dentist. Dylai'r adborth cyffredinol a dderbynnir gan gleifion gael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth, lle bo'n bosibl.

Am fod IDH dal wrthi'n diweddaru taflenni gwybodaeth i gleifion a'r wybodaeth ar wefan y practis, gwnaethom eu hatgoffa i ystyried egwyddorion moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ynghylch hysbysebu. Fel yr awgrymwyd uchod wrth sôn am yr adborth gan gleifion, dylai'r wybodaeth ar y wefan gael ei theilwra i'r practis unigol ac at y canllawiau neu'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru, fel nad yw'n camarwain nac yn drysu cleifion â gwybodaeth neu wasanaethau cyffredinol IDH nad ydynt yn berthnasol i'r practis hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai gwybodaeth gyfredol gan gynnwys taflenni gwybodaeth i gleifion gael eu teilwra i Bractis Deintyddol Fern {My} Dentist a dylent fod ar gael i'r cleifion cyn gynted â phosibl.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Yn gyffredinol, gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn dda a bod systemau gwaith cynnal a chadw a monitro ar waith. Argymhellwyd gwelliannau mewn perthynas â chwblhau cofnodion gwaith cynnal a chadw, cofnodion cleifion a rheolau lleol ar gyfer radiograffeg. Gwnaed argymhellion eraill o ran cael cyfarpar neu offer amgen yn hytrach na'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yn unol â'r arfer orau.**

Gwnaethom edrych ar yr offer a'r ddogfennaeth radiograffeg a gwelsom fod yr offer wedi cael ei wirio yn ystod Ionawr 2015. Roedd cofnod dyddiol yn cael ei gadw a oedd yn cynnwys y graddio radiograffeg. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o system archwilio reolaidd i fonitro'r canfyddiadau dyddiol yn gyffredinol. Felly gwnaethom argymell y dylid ystyried cynnal adolygiad mwy systematig o'r gweithdrefnau radiolegol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IRMER).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid datblygu a chynnal system sicrhau ansawdd /system archwilio radiograffeg yn rheolaidd, yn unol ag IRMER.***

Gwelsom fod llythyr hysbysu wedi cael ei anfon at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ynghylch defnyddio'r offer radiograffeg yn y practis, yn unol â'r gofyn. Nid oeddem wedi llwyddo canfod llythyr a oedd yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am y berchenogaeth newydd ac felly cytunodd rheolwr y practis i ysgrifennu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w hysbysu am y newid hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid anfon copi o'r llythyr hysbysu ynghylch defnyddio offer radiograffeg yn y practis at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar ôl ein harolygiad ad dylid ei gadw yn y practis.***

Nid oedd tystysgrif hyfforddiant IRMER un o'r deintyddion ar gael i ni ei harolygu. Fodd bynnag cawsom restr o'r holl hyfforddiant yr oedd wedi ymgymryd ag ef, a oedd yn cynnwys IRMER ac a oedd yn unol ag argymhelliad hyfforddiant Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaeth y deintydd hefyd gytuno i wneud copi o'r hyfforddiant sydd ar gael yn y practis at ddibenion arolygu, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan IRMER.

Gwelsom fod systemau a gweithdrefnau ar waith ynghylch delio ag argyfyngau a bod yr holl offer a'r feddyginiaeth at y diben hwn ar gael, ac o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Roedd cyfleusterau clinigol y practis yn dda; roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn lân, roedd digon o le ynddynt ac roedd ganddynt gyflenwad da o'r holl offer a'r cyfarpar angenrheidiol. Gwnaethom sylwi bod y cyfarwyddiadau radiograffeg y cyfeirir atynt fel 'rheolau lleol', ym mhob ystafell driniaeth, yn rhai generig. Nid oedd y cyfarwyddiadau hyn yn adlewyrchu'r arferion gwahanol yr oedd yn ofynnol i'w dilyn yn un o'r ystafelloedd triniaeth oherwydd lleoliad yr uned pelydr-X.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r rheolau radiograffeg lleol gynnwys y manylion a'r arferion yr ymgymerwyd â nhw ym mhob ystafell driniaeth unigol.***

Roedd ystafell ddadheintio benodol, a gwelsom fod yr ystafell hon wedi cael ei threfnu'n dda er mwyn gwahanu offer glân oddi wrth y rhai budr ac atal croes-heintio. Gwelsom un o'r nyrsys deintyddol yn cwblhau'r broses ddadheintio yn unol â chanllawiau arfer dda. Fodd bynnag, roedd y ffan echdynnu yn yr ystafell hon yn llawn llwch a gallai leihau effeithlondeb y broses hon.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai holl fannau'r ystafell ddadheintio gael eu cadw yn lân a hylan ac yn rhydd wrth lwch er mwyn lleihau'r risg o groes heintio/haint.***

Gwnaethom argymell bod brwsys sydd â dolen hir yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau offer yn drwyadl, yn unol â'r hyn a argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, yn hytrach na'r brwsys â dolen fer a ddefnyddir ar hyn o bryd. Dylai hyn leihau'r perygl o anafiadau gan offer miniog. Gwnaethom hefyd ofyn i'r practis ystyried cleifion sydd ag alergedd tuag at latecs, ac yn yr achosion hyn, dylai menig addas eraill fod ar gael er mwyn ail-becynnu offer glân. Gwelsom fod yr offer yn cynnwys y dyddiad y cawsant eu hailbecynnu ac, yn unol â'r arfer orau, gwnaethom argymell y dylai'r practis gynnwys y dyddiadau dod i ben ar rhain hefyd.

Gwelsom dystiolaeth ddogfennol ynghylch gwiriadau cynnal a chadw a gynhaliwyd ar gyfer yr offer dadheintio. Fodd bynnag, canfuom fod y taflenni prawf ar gyfer awtoclafau a baddonau uwchsonig (ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol) yn anghyson ac yn anghyflawn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai cofnodion cynnal a chadw offer dadheintio gael eu cwblhau'n llawn gan yr holl staff oherwydd byddai hyn yn dangos bod yr offer wedi cael ei wirio a'i gynnal a'i gadw'n briodol.***

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwnaethom sylwi mai cloriau oren oedd ar y biniau mewn dwy ystafell driniaeth. Fodd bynnag, y lliw a argymhellir ar gyfer y math hwn o wastraff clinigol yw melyn ac felly cytunodd y rheolwr practis i brynu biniau melyn at y diben hwn. Roedd biniau melyn mwy o faint tu allan wedi'u cloi ond fel arall nid oedd unrhyw drefn ddiogel i'w hatal rhag cael eu symud oddi ar y lleoliad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai gwastraff clinigol gael ei waredu yn y cynhwysyddion lliw priodol.***

***Dylid cymryd camau gweithredu ychwanegol er mwyn sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol y tu allan i'r adeilad yn ddiogel, er mwyn sicrhau na fyddant yn cael eu symud oddi ar y safle ac na fydd rhywun yn cael anaf wrth geisio torri i mewn iddynt.***

O’r cofnodion cleifion a welsom, roeddem o'r dull o gadw cofnodion yn dda iawn. Fodd bynnag, roedd cofnodion un o'r deintyddion yn anghyson mewn rhai meysydd a gwnaethom drafod hyn â'r deintydd dan sylw.

Gwelsom fod digwyddiadau pwysig neu rybuddion yn cael eu cynnwys yng nghofnodion y cleifion a gwnaethom argymell y gellid defnyddio eicon ychwanegol ar y cyfrifiadur at y diben hwn, er mwyn helpu i ddod o hyd i wybodaeth bwysig yn gyflym.  Gwnaethom gynghori'r practis y dylai amcangyfrifon y GIG y maen nhw'n eu darparu i gleifion hefyd gynnwys contract y GIG ar y dudalen gefn.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod yr arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol ac roedd gwybodaeth wedi'i threfnu'n dda. Mae rheolwr y practis wedi rhoi systemau ar waith er mwyn monitro a chynnal safonau. Roedd IDH wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau cadarn, a oedd yn y broses o gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau a deddfwriaeth Cymru.**

Cafodd Practis Deintyddol Fern ei redeg yn wreiddiol gan Dr Herd, un o ddeintyddion arweiniol y practis. Cafodd y practis ei gaffael gan Denticare yn 2012 cyn iddo ddod i feddiant Integrated Dental Holdings Limited (IDH) ym mis Awst 2014, ac mae'n cael ei ail frandio ar hyn o bryd o dan yr enw {My}Dentist.

Mae rheolwr practis Practis Deintyddol Fern {My} Dentist hefyd yn goruchwylio’r gwaith o reoli'r gwasanaeth ym mhractis deintyddol {My}Dentist Llanrwst. Roedd Dr Herd, rheolwr y practis a rheolwr ardal IDH (ar gyfer ardal Gogledd Cymru) yn bresennol yn ystod ein harolygiad. Roedd pob un o'r aelodau staff yn groesawgar tuag atom ac roedd rheolwr y practis a'r rheolwr ardal yn awyddus i roi ein hawgrymiadau am welliannau ar waith.

Ar adeg ein harolygiad, roedd IDH wedi dechrau ar y broses o recriwtio dau ddeintydd, un i gymryd lle'r deintydd a fyddai'n gadael yr wythnos ar ôl yr arolygiad, ac un i lenwi'r swydd sy'n cael ei chyflawni gan ddeintydd galwedigaethol dan hyfforddiant, oedd ar fin cwblhau ei hyfforddiant yn ystod haf 2015. Dywedwyd wrthym fod IDH wedi dechrau ar y broses o adnewyddu gwiriadau gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol a oedd yn dangos bod gwiriadau gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu gwneud o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Ar y cyfan, gwelsom fod y gwaith o reoli’r gwasanaeth wedi’i drefnu’n dda ac yn cael ei ategu gan bolisïau a gweithdrefnau cadarn. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglen arfarniad staff yn gyfredol. Fe’n hysbyswyd y byddai'r broses hon yn cael ei chwblhau erbyn diwedd Mehefin 2015, ac fel rhan o'r broses hon, byddai staff yn derbyn cynllun datblygiad personol. Gan fod y mater hwn eisoes ar y gweill, a chan ystyried bod y safonau cyffredinol yn dda mewn mannau eraill, nid ydym wedi ei gynnwys yn y cynllun gwella.

Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau hyfforddiant staff a gwelsom fod staff wedi mynychu amrywiaeth o gyrsiau gorfodol ac arbenigol yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â rhaglen ddysgu ar-lein IDH,

roedd staff yn cael eu cefnogi i ddysgu a datblygu drwy fynychu cynadleddau a chyrsiau allanol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cyfarfodydd tîm; roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd tystiolaeth i ddangos bod cyfarfodydd yn cael eu defnyddio fel dull o ddysgu a datblygu. Fodd bynnag, gwelsom fod ffocws y cyfarfodydd mwyaf diweddar wedi symud tuag at roi cyfarwyddiadau i staff neu eu hatgoffa o systemau a phrosesau IDH. Gwnaethom argymell felly, lle bo'n briodol, y dylid ailstrwythuro'r cyfarfodydd tîm er mwyn annog staff i gymryd rhan ac i roi cyfleoedd iddynt ddysgu a rhannu'r gwaith o ddatblygu a llywio'r practis.

Gwelsom fod systemau ar waith i gofnodi a monitro cwynion ffurfiol ac anffurfiol a dderbyniwyd. Roedd gweithdrefnau cwyno gwahanol wedi'u harddangos a gwnaethom argymell eu bod yn cael eu hadolygu i atal dyblygu gwybodaeth neu ddryswch i'r cleifion. Roedd rhai polisïau yn cyfeirio at ganllawiau ac arferion yng Nghymru, ond roedd un o'r polisïau a welsom yn cyfeirio staff at Y Comisiwn Ansawdd Gofal, sef y rheoleiddiwr yn Lloegr. Felly, gwnaethom argymell y dylai IDH barhau i adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Cymru.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae Practis Deintyddol Fern {My} Dentist wedi'i leoli ar dri llawr uchaf adeilad masnachol. Mae'n anodd i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu bobl sy'n ei chael yn anodd dringo'r grisiau gael mynediad at y practis am nad oes lifft ar gael. Tu mewn, gwelsom fod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau yn dda ac yn gyffredinol roedd yr holl fannau a welsom yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel.**

Mae Practis Deintyddol Fern {My} Dentist wedi'i leoli ar dri llawr uchaf adeilad masnachol, yng nghanol tref Prestatyn. Dim ond ychydig o fannau parcio sydd gan y practis ond roedd yn agos iawn at faes parcio cyhoeddus, ac ar adeg ein hadolygiad, roedd yn rhad ac am ddim am hyd at bedair awr.

Mae'r mynediad yn gyfyng i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a phobl sy'n ei chael yn anodd defnyddio'r grisiau yn anfantais fawr o ran dewis y cleifion a chysondeb eu gofal. Fel yr esboniwyd gan un o'r deintyddion, pan na fydd cleifion yn gallu dringo'r grisiau mwyach, yr unig opsiwn yw eu hatgyfeirio at ddeintydd lleol arall sydd ag ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear. Oherwydd graddiant y grisiau, a phrinder lle tu allan, mae'n annhebygol y gall y practis wneud addasiadau rhesymol er mwyn hwyluso'r mynediad at y practis. Dywedodd y deintydd wrthym fod yr ymdrechion blaenorol a wnaeth i brynu'r llawr daear a cheisio cael caniatâd cynllunio i osod lifft wedi cael eu gwrthod. Felly, cafodd y llawr daear ei brynu gan fusnes arall. Fodd bynnag, cynghorir IDH i ystyried y broblem hon os byddant yn cynllunio unrhyw ddatblygiadau pellach yn yr ardal.

Unwaith inni gyrraedd tu mewn i'r adeilad, gwelsom fod y cyfleusterau a'r arwyddion yn dda. Roedd tŷ bach i'r cleifion a thŷ bach ar wahân i'r staff ar y llawr cyntaf, ac roedd yno beiriant sebon a thywelion papur i atal croesheintio. Roedd pedair ystafell driniaeth, dwy ar y llawr cyntaf a dwy ar yr ail lawr. Gwnaethom sylwi bod gan un o'r ystafelloedd triniaeth ffenestr fach, er mwyn galluogi'r gweithredwr pelydrau-X i weld i mewn i'r ystafell tra bod y peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom fod y bleind ar y ffenestr wedi cael ei dynnu i lawr er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd ystafelloedd aros ar y llawr cyntaf ac ar yr ail lawr.

Roedd cyfleusterau eraill i'r staff yn cynnwys swyddfa, ystafell /cegin i'r staff ac ardal newid ar yr ail lawr a chegin fach ar y llawr cyntaf.

Ac eithrio'r llwch ar y ffan echdynnu y gwnaethom nodi'n flaenorol ar dudalen 9 yr adroddiad hwn, roedd yr holl ardaloedd eraill a welsom yn lân a thaclus. Yn gyffredinol, roedd yr ystafelloedd yn olau, yn derbyn digon o olau ac wedi'u

hawyru'n dda. Roedd y cleifion a welsom yn canmol yr amgylchedd ers iddo gael ei ailwampio gan IDH.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â phrofiad y claf a chyflenwi Safonau Iechyd a Gofal. Mae manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Fern {My} Dentist yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** **Practis Deintyddol Fern {My} Dentist**

**Dyddiad yr arolygiad:** **28 Mai 2015**

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | **Dylai gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol gan gynnwys taflenni gwybodaeth i gleifion gael eu teilwra i Bractis Deintyddol Fern {My} Dentist ac fe ddylai fod ar gael i gleifion cyn gynted â phosibl.** *(Safon Iechyd a Gofal 3.2)* | Mae'r Ganolfan Gymorth (Pencadlys y cwmni) yn cyd-weithio ar hyn o bryd i lunio taflenni gwybodaeth Gymraeg i gleifion. Unwaith y bydd hwn wedi'i gwblhau, bydd angen i reolwr y practis anfon manylion perthnasol y practis i'w rhoi ar y templed sydd wedi'i frandio. Unwaith y bydd y copai draft wedi'i gymeradwyo gan y Rheolwr Practis, bydd y taflenni'n cael eu hargraffu a'u hanfon at y practis. Yna byddant ar gael yn lle'r taflenni gwybodaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd, a | Rheolwr y Practis a'r Ganolfan Gefnogaeth | 03/09/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | byddant ar gael i'r cleifion ar draws y practis. | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 8 | **Dylid datblygu a chynnal system rheoli ansawdd/system archwilio reolaidd, yn unol ag IRMER.**<br>*(Safon Iechyd a Gofal 2.9)* | Bydd rheolwr y practis yn cynnal archwiliad radiograffeg y cwmni ar bob deintydd. Bydd 50 pelydr-X yn cael eu harchwilio ar gyfer pob deintydd a bydd gradd 1,2, neu 3 yn cael eu hasesu. Gradd 2 - Rhagorol - Dim gwallau o ran datguddio, gosod na wth phrosesu. Gradd 2 - Yn ddiagnostig foddhaol - Rhai gwallau o ran datguddio, gosod neu brosesu nad ydynt yn tynnu wrth ddefnyddio'r radiograff yn ddiagnostig. Gradd 3 - Anfoddhaol - Gwallau o ran datguddio, gosod neu brosesu sy'n golygu bodd y radiograff yn anfoddhaol.<br>Bydd rheolwr y practis yn trafod y canlyniadau â'r deintyddion a bydd unrhyw themâu cyffredin yn cael eu trafod â thîm y practis yn ystod cyfarfod tîm er mwyn dysgu a gwella wrth fynd ymlaen.<br>Bydd deintyddion yn derbyn cynlluniau gweithredu er mwyn helpu i wella unrhyw broblemau sy'n ymwneud â phelydrau-X. Yna bydd yr archwiliad radiograffeg yn cael ei | Rheolwr y Practis | 03/08/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | ailadrodd bob chwe mis a bydd y broses ddysgu yn cael ei rhannu unwaith eto. Mewn rhai achosion bydd angen nodi dyddiad adolygu ar y cynlluniau gweithredu lle bydd yr archwiliad yn cael ei adrodd yn fwy rheolaidd na chwe mis er enghraifft, pe bai unrhyw broblemau mawr e.e. os bydd mwy na 20% o belydrau-X â gradd 3, bydd yr archwiliad yn cael ei ailadrodd ymhen mis er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud ar unwaith.<br><br>Lle bydd angen cymorth, cefnogaeth a/neu hyfforddiant ychwanegol ar ddeintyddion, bydd rheolwr y practis yn trefnu bod rheolwr cymorth clinigol a/neu'r cyfarwyddwr clinigol yn mynychu'r practis i gyfarfod â'r deintyddion. | | |
| 8 | **Dylid cadw copi o'r llythyr sy'n hysbysu am ddefnyddio'r offer radiograffeg yn y practis, a anfonwyd at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn y practis, yn dilyn ein harolygiad.**<br><br>*(Safon Iechyd a Gofal 2.9)* | Mae rheolwr y practis wedi cysylltu â'r tîm Iechyd a Diogelwch yn y Ganolfan Gymorth ac maen nhw wedi anfon copi o'r llythyr yn hysbysu Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o’r newid mewn perchenogaeth. Mae hyn bellach yn cael ei storio fel tystiolaeth yn y ffeil radiograffeg. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| 9 | **Dylai'r rheolau lleol radiograffeg gynnwys** | Bydd rheolwr y practis yn adolygu asesiad risg | Rheolwr y Practis | 17/07/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **y manylion a'r arferion yr ymgymerwyd â nhw ym mhob ystafell driniaeth unigol.**<br>*(Safon Iechyd a Gofal 2.9)* | radiograffeg ar gyfer pob ystafell driniaeth ac yn sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu haddasu i adlewyrchu amgylchiadau penodol pob ystafell driniaeth yn y practis. Bydd y rheolau lleol hefyd yn nodi enw'r RPS, yr RPA a'r offer pelydr-X a byddant yn cael eu harddangos wrth ymyl y peiriant pelydr-X perthnasol. Bydd rheolwr y practis yn adolygu'r rheolau lleol hyn bob blwyddyn neu os yw'r peiriant yn cael ei symud/ ei waredu er mwyn gosod un arall, neu os bydd manylion yr RPS yn newid. | | |
| 9 | **Dylai holl fannau'r ystafell ddadheintio gael eu cadw yn lân a hylan ac yn rhydd wrth lwch er mwyn lleihau'r risg o groes heintio/haint.**<br>*(Safon Iechyd a Gofal 2.4)* | Mae'r broses o becynnu offer sydd wedi'i sterileiddio bellach yn cael ei gwneud gan ddefnyddio menig nad ydynt yn rhai latecs. Mae rheolwr y practis wedi trafod hyn a chytunwyd ar y broses yn ystod cyfarfod practis diweddar â'r tîm.<br>Yn ogystal â hyn, mae dyddiadau dod i ben bellach yn cael eu nodi ar offer sy'n cael eu rhoi mewn bagiau.<br>Bydd rheolwr y practis yn cynnal cyfarfod practis ac yn sicrhau bod y ffan echdynnu yn cael ei glanhau'n rheolaidd bob wythnos neu'n fwy aml yn ôl yr angen, fel rhan o'r amserlen ddad-heintio. | Rheolwr y Practis | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd rheolwr y practis yn cynnal hapwiriadau i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau. | | |
| 10 | **Dylai cofnodion cynnal a chadw offer dadheintio gael ei gwblhau'n llawn gan yr holl staff oherwydd byddai hyn yn dangos bod yr offer wedi cael ei wirio a'i gynnal a'i gadw'n briodol.**<br>*(Safon Iechyd a Gofal 2.9)* | Mae rheolwr y practis wedi cynnal cyfarfod tîm i drafod y dull cywir o gwblhau llyfrau cofnodion yr offer dadheintio.<br>Mae rheolwr y practis hefyd wedi trafod rota ac wedi ei roi ar waith gan ategu pwysigrwydd cwblhau gwaith cynnal a chadw yn ddyddiol a'r cofnodion cydymffurfedd.<br>Bydd rheolwr y practis yn cwblhau hapwiriadau cyson o'r llyfrau cofnodion er mwyn sicrhau bod profion dyddiol, wythnosol, misol a chwarterol yn cael eu cwblhau a'u dyddio'n gywir. | Rheolwr y Practis | Ar unwaith |
| 10 | **Dylai gwastraff clinigol gael ei waredu yn y cynwysyddion gwastraff lliw priodol.**<br>Dylid cymryd camau gweithredu ychwanegol er mwyn diogelu'r biniau gwastraff clinigol y tu allan i'r adeilad, er mwyn sicrhau na fyddant yn cael eu symud oddi ar y safle ac na fydd unrhyw un yn cael anaf wrth geisio torri i mewn iddynt.<br>*(Safon Iechyd a Gofal 2.4)* | Bydd rheolwr y practis yn trafod hyn â thîm Cyfleusterau'r cwmni i ofyn i gontractwyr roi cadwyni ar y biniau gwastraff clinigol melyn a'u clymu i'r wal, rhag iddynt gael eu cludo ymaith o'r safle.<br>Mae rheolwr y practis wedi trafod â'r cyflenwr a byddant yn darparu cynwysyddion gwastraff lliw melyn y tro nesaf y byddant yn casglu'r biniau. | Rheolwr y Practis | 31/08/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Amherthnasol | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Amherthnasol | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras): Nadine Phillips**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **03/07/15**